BYWGRAFFIAD ARTIST

David Doidge

Accompanist

Artist Manager: Sioned Jones
sioned.jones@harlequin-agency.co.uk

Mae David Doidge yn aelod llawn amser o staff cerddorol Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru, lle mae e wedi gweithio ar nifer o gynyrchiadau gydag arweinyddion nodedig rhyngwladol megis Carlo Rizzi, Lothar Köenigs ac Erik Nielson yn cynorthwyo ar weithiau gan Bellini, Berg, Puccini a Bizet.

Cwblhaodd ei astudiaethau ôl-radd yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn arbenigo fel répétiteur mewn opera a hyfforddiant lleisiol. Roedd ei astudiaethau ôl-raddedig yn cael eu cefnogi gan wobrau pwysig gan Gyngor Celfyddydau Cymru, 'Musicians Benevolent Fund' a'r 'Welsh Livery Guild'. Yn 2013, cafodd ei enwebu a derbyniodd un o bum Ysgoloriaeth Tywysog Cymru, a gafodd eu dyfarnu ar draws y celfyddydau yn y DU. Ymysg ei anrhydeddau diweddara mae Gwobr Datblygu Gyrfa gan Ymddiriedolaeth Bryn Terfel.

Tra'n fyfyriwr israddedig, enillodd David wobr gyntaf yng Nghystadleuaeth Concerto Blynyddol Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn perfformio Ail Concerto Piano Shostakovich, a oedd yn cynnwys perfformio gyda Cherddorfa Ffilharmonig Caerdydd yn Neuadd Hoddinott y BBC, Canolfan Mileniwm Cymru a chyda Cherddorfa Symphoni Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd. Mae gwobrau eraill yn cynnwys Gwobr Goffa Mansel Thomas 2010 ar gyfer cyfeilyddion. Yn ystod ei ail flwyddyn fel myfyriwr israddedig, rhoddwyd lle i David ar gynllun Live Music Now Yehudi Menuhin ac mae wedi rhoi nifer o berfformiadau ar gyfer y sefydliad ar draws y DU.

Mae David yn berfformiwr gwadd rheolaidd yn La Mortella ar Ynys Ischia yn yr Eidal yng nghartref Syr William a'r Foneddiges Susana Walton. Mae wedi perfformio'n helaeth gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Opera Cenedlaethol Cymru ac Only Men Aloud, ac wedi cyfeilio i nifer o artistiaid mwyaf blaenllaw ein dydd gan gynnwys Syr Bryn Terfel, Nuccia Focile, Rebecca Evans, Judith Howarth, Barry Banks a Lesley Garrett. Mae ei uchafbwyntiau diweddar yn cynnwys cyfeilio i Bryn Terfel ym Mhroms Bryste ac eto mewn rhaglen arbennig 'Bywyd Trwy Gân' i ddathlu pen-blwydd y bas-bariton yn 50 oed, ar gyfer S4C.

Rydym yn diweddaru'n bywgraffiadau yn gyson, felly cysylltwch â ni am y fersiwn ddiweddaraf, os gwelwch yn dda.